

# Y Sector Cig Coch

## Briff Ymchwil

Rhagfyr 2018



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar dreithi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
[www.cynulliad.cymru/ymchwil](http://www.cynulliad.cymru/ymchwil)

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Ymchwil**  
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Tŷ Hywel**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6317**  
E-bost: [Chris.Wiseall@Cynulliad.Cymru](mailto:Chris.Wiseall@Cynulliad.Cymru)  
Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)  
Blog: [SeneddYmchwil.blog](http://SeneddYmchwil.blog)

#### © Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
**Senedd Ymchwil**

# Y Sector Cig Coch

## Briff Ymchwil

Rhagfyr 2018

**Awduron:**  
Chris Wiseall

### Trosolwg o'r papur:

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn cydnabod y gymrodoriaeth seneddol a roddwyl i Chris Wiseall gan y Cyngor Ymchwil Peirianneg a'r Gwyddorau Ffisegol, a allugodd i'r briff ymchwil hwn gael ei gwblhau.

Mar'r briff ymchwil hwn yn rhoi darlun cyffredinol o'r sector cig coch yng Nghymru ar gyfer 2018. Mae'n cynnwys crynodeb o brisiau cig eidion, cig oen a phorc yn y DU un ogystal â safle'r DU yn y fasnach fyd-eang ar gyfer cig coch. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am gynhyrchwyr a phroseswyr cig coch yng Nghymru ac un trafod materion sy'n codi oherwydd Brexit.



[www.cynulliad.cymru/ymchwil](http://www.cynulliad.cymru/ymchwil)

## Cynnwys

<b>Cyflwyniad .....</b>	<b>1</b>
<b>Prisiau cig coch ym Mhrydain .....</b>	<b>2</b>
<b>Y fasnach fyd-eang mewn cig coch.....</b>	<b>3</b>
Cig eidion.....	3
Allforion y DU.....	3
Cig dafad ac oen .....	4
<b>Cyflenwad cig coch yn y DU .....</b>	<b>6</b>
Elw cadwyni cyflenwi .....	8
<b>Cynhyrchwyr Cymru.....</b>	<b>9</b>
<b>Prosesu cig coch yng Nghymru .....</b>	<b>10</b>
<b>Cod ymarfer gwirfoddol .....</b>	<b>12</b>
<b>Marchnadoedd cig coch ar ôl i'r DU aadael yr UE.....</b>	<b>13</b>
<b>Ffynonellau allwedol .....</b>	<b>17</b>

## Cyflwyniad

Mae'r briff ymchwil hwn yn rhoi darlun cyffredinol o sefyllfa bresennol y sector cig coch yn y DU gan gyfeirio'n benodol at y diwydiant cig coch yng Nghymru. Mae'r diwydiant cig coch yng Nghymru yn cynnwys gwerthu cig gwartheg, defaid a moch.

Cig coch yw un o'r sectorau amaethyddol mwyaf yn y DU. Mae'n cyfrif am tua **23 y cant o gynnyrch amaethyddol y DU** yn ôl gwerth; mae'r ffigur hwn **ddwywaith gymaint yng Nghymru, sef 46 y cant**. Y sector llaeth yw'r sector mwyaf yn ôl gwerth yng Nghymru, a'r sector cig coch yw'r ail. Gwartheg sydd â'r gyfran fwyaf o'r sector cig coch yng Nghymru, gan ddarparu 26 y cant o gyfanswm gwerth cynnyrch amaethyddol Cymru. Defaid sydd â'r gyfran nesaf, sef 17 y cant, ac yna moch gyda 0.38 y cant. O ystyried mai cyfran fach o gynnyrch cig coch Cymru sy'n dod o foch, mae'r briff hwn yn rhoi pwyslais ar wartheg a defaid.

Bu cwmp o 1 y cant yn y **gwerth allbwn o ddefaid** yng Nghymru rhwng 2016 a 2017, a bu cynnydd o 8 y cant yn y **gwerth allbwn o wartheg** yn yr un cyfnod. Yn y rhagolygon ar gyfer 2017, gwelwyd cynnydd o £174 miliwn (12 y cant) yng nghyfanswm yr allbwn amaethyddol, a oedd yn cael ei gyfateb yn rhannol yn unig gan gynnydd o £93 miliwn (9 y cant) mewn bwyta cig. Er bod hwn yn gynnydd mawr, daw ar ôl dwy flynedd lle'r oedd cyfanswm yr incwm o ffermio **yn arbennig o isel**.


## Prisiau cig coch ym Mhrydain

Roedd y **pris pwysau marw am fustych ar gyfartaledd** ym Mhrydain Fawr yn 2018 yn uwch na lefelau 2017 hyd at fis Gorffennaf, lle gwelwyd gostyngiad bach, cyn cynyddu i 368.3c ym mis Hydref 2018, o'i gymharu â 370c ym mis Hydref 2017. Roedd y pris **pwysau marw am wŷn ar gyfartaledd** yn 2018 yn cyfateb ag uchafswm pris 2017 (509.4c) ym mis Mawrth 2018, ac fe wnaeth barhau yn uwch na hyn tan ddiwedd mis Mehefin 2018. Rhwng 17 Mawrth 2018 a 23 Mehefin 2018, y pris ar gyfartaledd oedd 555.1c, o'i gymharu â 441.1c am yr un cyfnod yn 2017; aeth y pris hefyd i'w **lefel uchaf erioed o 601.9c yng nghanol mis Ebrill 2018**.

Mae'r prisiau ar gyfartaledd yn y farchnad arwerthiannau da byw wedi parhau i gynyddu ers 2016. **Rhwng mis Ionawr a mis Hydref 2018, cododd y pris am fustych** (189.7c y cilogram) 2.0 y cant o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2017 (185.9c y cilogram), yn dilyn 6.6 y cant o gynnydd o'i gymharu â'r cyfnod hwn yn 2016 (174.5c y cilogram).

Rhwng mis Ionawr a mis Hydref 2018, bu 11 y cant o gynnydd ym **mhris y farchnad arwerthiannau wŷn** yng Nghymru (206.5c y cilogram) o'i gymharu â 2017 (186.5c y cilogram); roedd hyn yn dilyn 3 y cant o gynnydd o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2016 (181.2c y cilogram). Mae'r cynnydd mewn prisiau yng Nghymru yn adlewyrchu tueddiadau tebyg ledled Prydain.

Yn gyffredinol, mae pris wŷn yn ansefydlog iawn o un tymor i'r llall o'i gymharu â phris gwartheg.



Ffigur 1: Pris fferm y DU ar gyfartaledd mewn ceiniog y cilogram rhwng mis Ionawr 2013 a mis Medi 2018.

Ffynhonnell: **Agriculture and Horticulture Development Board (AHDB) Beef and Lamb**

## Y fasnach fyd-eang mewn cig coch

Mae **cynhyrchu cig yn cynyddu** ledled y byd, gyda phwysau cynyddol ar gyflenwad y farchnad cig eidion yn fyd-eang oherwydd sychder yn yr Unol Daleithiau a phrisiau allforio isel Brasil. Mae'r **tariffau sydd wedi'u gosod** rhwng yr Unol Daleithiau a Tsieina yn rheswm arall dros ansicrwydd yn y diwydiant cig byd-eang.

### Cig eidion

Cig o Awstralia, Brasil a'r Unol Daleithiau sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o **allforion cig eidion byd-eang**. Dylanwad cyfyngedig sydd gan yr UE ar y fasnach fyd-eang, gan fod y rhan fwyaf o gig eidion o'r UE yn cael ei werthu ym marchnad sengl yr UE. Mae'r rhan fwyaf o allforion cig eidion o'r UE yn tueddu i fod yn doriadau gwerth is nad oes fawr o alw amdanynt yn yr UE. **Japan, Tsieina ac yna yr Unol Daleithiau** yw ein mewnforwyr cig eidion mwyaf.

### Allforion y DU

Yn 2017, allforiodd y DU **11.7 y cant o gyfanswm y cig eidion a'r cig llo** a gynhyrchodd (PDF, 1.5MB). Aeth 87 y cant o'r allforion i wledydd yr UE. Cyfanswm gwerth yr allforion hyn yn 2017 oedd £405.1 miliwn. **Parhaodd hyn i godi** yn hanner cyntaf 2018, gydag 14 y cant o gynnydd mewn allforion yn y cyfnod hwn.

Roedd disgwl i **allforion cig eidion a llysiau'r DU** barhau o 2016 mewn modd cadarnhaol oherwydd bod y bunt yn gyffredinol yn wannach. Nid dyna a ddigwyddodd, a chafwyd 2 y cant o ostyngiad mewn allforion gwartheg yn 2017 o'i gymharu â 2016, a chredir bod hynny o ganlyniad i gyfyngiad ar y cyflenwad. **Yn dilyn hyn, gwelwyd 14 y cant o gynnydd** yn hanner cyntaf 2018 o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2017.

**Roedd allforion cig eidion i Hong Kong yn 2017, sy'n cyfrif am dros hanner allforion cig eidion y DU, wedi dyblu o'i gymharu â 2016.** Yn dilyn hyn, bu 13 y cant o gynnydd yn hanner cyntaf 2018 o'i gymharu â hanner cyntaf 2017. Roedd tuedd tebyg yn yr allforion i wledydd eraill y tu allan i'r UE rhwng 2016 a 2017, ond ers hynny bu 14 y cant o ostyngiad o 14% yn ystod hanner cyntaf 2018 o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2017.

## Mewnforion y DU

Mewnforiodd y DU **275,400 tunnell o gig eidion yn 2017**; roedd hyn yn cyfrif am 23 y cant o gyfanswm y cig eidion a gafodd ei fwyta yn y DU. Iwerddon sy'n cyflenwi'r rhan fwyaf o'r cig eidion y mae'r DU yn ei fewnforio, sef ychydig yn fwy na 70 y cant o fewnforion cig eidion a chig llo y DU yn 2017.

Roedd 3 y cant o gynnydd yng nghyfanswm y mewnforion cig eidion yn 2017 o'i gymharu â 2016. Parhaodd y twf hwn yn 2018, gyda **mewnforion cig eidion a chig llo 4.6 y cant yn uwch** hyd at fis Mehefin 2018 o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2017. Roedd y cynnydd hwn yn dod yn bennaf o Iwerddon, ond bu cwmp yn y mewnforion o rai gwledydd yr UE fel yr Iseldiroedd, yr Almaen a Gwlad Pwyl.

Roedd 35 y cant o gynnydd mewn mewnforion o wledydd y tu allan i'r UE yn hanner cyntaf 2018 o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2017. Roedd 105 y cant o gynnydd mewn mewnforion cig eidion o Frasil yn hanner cyntaf 2018.

## Cig dafad ac oen

**Mae'r fasnach fyd-eang mewn cig dafad ac oen yn cael ei sbarduno'n bennaf** gan allforion o Seland Newydd ac Awstralia. Er mai'r gwledydd hyn sy'n dominyddu allforion cig dafad y byd, bellach Tsieina yw mewnforiwr a cynhyrchydd defaid mwyaf y byd, ac mae disgwyl i **awydd Asia am gig defaid** barhau i dyfu.

Mae **Hybu Cig Cymru**, y bwrdd sy'n gyfrifol am hyrwyddo cig coch Cymru, wedi dyrannu adnoddau i **hyrwyddo cynnyrch cig coch Cymru mewn marchnadoedd yn Asia**. Yn ddiweddar, **cyhoeddodd Saudi Arabia** y bydd yn codi'r gwaharddiad ar fewnforion defaid o'r DU, mewn cytundeb a allai fod yn werth **£25 miliwn i farchnad y DU**.

## Allforion y DU

Yn 2017, allforiodd y **DU 30 y cant o gyfanswm y cig oen a'r cig dafad a gynhyrchedd** (PDF, 1.3MB). Aeth 94 y cant o'r allforion hyn i wledydd yr UE yn 2017. Roedd 14 y cant o gynnydd yng nghyfanswm y cig a gynhyrchedd o'i gymharu â 2017. Cyfanswm gwerth yr allforion hyn yn oedd £385 miliwn, yn cynyddu o £327 miliwn yn 2016. Yn dilyn hyn, gwelwyd 12 y cant o **ostyngiad** (XLS, 2.4MB) yn hanner cyntaf 2018 o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2017.

Mae'r gyfran fwyaf o gig oen y DU yn mynd i Ffrainc, gyda'r Almaen yn ail ac yna Iwerddon, gyda **ffigurau** diweddar (XLS, 2.4MB) yn dangos cynnydd i'r Almaen (25 y cant), Gwlad Belg (16 y cant), yr Eidal (13 y cant) a Denmarc (13 y cant).

## Mewnforion y DU

Yn 2017, **mewnforiodd y DU 80,200 tunnell o gig dafad ac oen**; roedd hyn yn cyfrif am 27 y cant o gyfanswm y cig oen a gafodd ei fwyta yn y DU. Dyma oedd y **gwerth isaf o fewnforion defaid ers 20 mlynedd**, sef 11 y cant yn is na 2016. Daw'r rhan fwyaf o fewnforion cig dafad ac oen o'r tu allan i'r UE, gyda Seland Newydd yn darparu 65 y cant o'r mewnforion i'r DU.

Er bod mai Seland Newydd sy'n cyfrannu'r rhan fwyaf o'r mewnforion cig dafad ac oen i'r DU, bu gostyngiad yng nghyfanswm y mewnforion i'r DU o Seland Newydd oherwydd gostyngiad mewn cynhyrchiant yn Seland Newydd, ynghyd â galw cynyddol gan farchnadoedd fel Tsieina. **Yn ddiweddar, arwyddodd Seland Newydd gytundeb masnach gyda Tsieina** i ganiatáu cludo cig oen wedi'i oeri.

## Cyflenwad cig coch yn y DU

Roedd **cynhyrchiant cig eidion** y DU 1 y cant yn is yn 2017, yn dilyn cynhyrchiant cryf yn 2016, a phriodolwyd y cwmp i 3 y cant o ostyngiad yn nifer y lladdiadau, gyda chynnydd bach ym mhwysau carcasau. Roedd **3 y cant o gynnydd** yng nghynhyrchiant cig dafad ac oen yn y DU yn 2017 o'i gymharu â 2016. Yn gyffredinol, cynyddodd y lefel cynhyrchu ar gyfer pob math o gig rhwng 2012 a 2017 (Tabl 1).


mewn 000 tunnell	Cig eidion a chig llo	Cig oen a chig dafad	Cig mo-chyn	Offal	Cyfanswm y cig coch
<b>2012</b>	885	275	825	139	1985
<b>2013</b>	847	289	833	138	1969
<b>2014</b>	877	298	863	143	2038
<b>2015</b>	883	302	898	145	2082
<b>2016*</b>	912	290	903	147	2121

Tabl 1: Cyfanswm a gynhyrched yw yn y DU mewn 000 tunnell. \*Newidiodd DEFRA i flynyddoedd calendr ym mis Chwefror 2016.

Ffynhonnell: [AHDB Beef and Lamb UK Sheep Yearbook 2018](#)

**Yng Nghymru, cafodd 3.1 y cant yn llai o wartheg eu lladd** yn y cyfnod hyd at fis Mehefin 2018, nag yn yr un cyfnod yn 2017 (Ffigur 2). Mae hyn yn mynd yn groes i **dueddiad ehangach y DU, sef 3 y cant o gynnydd** o ran lladd gwartheg a chynhyrchu cig eidion yn y flwyddyn hyd at fis Awst 2018 o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2017, a hynny yn sgil galw parhaus am gynhyrchu cig eidion.

**Yng Nghymru, cafodd 3.2 y cant yn llai o ddefaid eu lladd** yn y cyfnod hyd at fis Mehefin 2018 nag yn yr un cyfnod yn 2017 (Ffigur 2). Mae hyn yn adlewyrchu **y duedd ledled y DU** o 3 y cant o ostyngiad mewn lladd defaid yn y flwyddyn hyd at fis Gorffennaf 2018 o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2017.



Ffigur 2: Cyfanswm y defaid a'r gwartheg o Gymru a laddwyd rhwng mis Ionawr 2015 ac mis Mai 2018.

Ffynhonnell [Hybu Cig Cymru](#).

Mae'r berthynas rhwng lefelau cynhyrchu (tunelli) a'r nifer a laddwyd yn dibynnu ar bwysau'r carcasau ar gyfartaledd, a hynny yn ei dro yn dibynnu ar aedd fedrwydd yr anifail pan gaiff ei ladd, yn ogystal â'r rhyw. Yn gyffredinol, mae pwysau carcasau wedi cynyddu ar gyfer yr holl dda byw yn y DU, ac eithrio mamogiaid a hyrddod (Tabl 2).

mewn cilogramau	Gwartheg				Defaid	
	Bustych	Heffrod	Teirw ifainc	Gwartheg wedi'u pesgi	Defaid heb fagu	Mamogiaid a hyrddod
<b>2012</b>	367.1	320.3	346.4	347	19.1	26.4
<b>2013</b>	360.7	315.9	338.8	340.6	19	25.9
<b>2014</b>	367.5	324.6	344.8	348.7	19.4	27.3
<b>2015</b>	374.8	331.8	344.6	355.7	19.6	26.7
<b>2016</b>	372.4	327.9	327.1	350.9	19.2	25.9
<b>2017</b>	367.0	330.0	326.6	349.1	19.4	26.5

Tabl 2: Pwysau carcas gwartheg a defaid yn y DU 2012-2017.

Ffynhonnell [ADHB Sheep Yearbook \(PDF 2MB\)](#) a [Cattle Yearbook \(PDF 1.9MB\)](#).


## Elw cadwyni cyflenwi

Ystyr amrediad prisiau manwerthu yw'r gwahaniaeth rhwng y swm a dalwyd i'r fferm a'r swm a dalwyd i'r manwerthwr. **Mae 4 y cant o ostyngiad wedi bod yn yr amrediad prisiau ar gyfer porc** yn y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2018, sy'n adlewyrchu gostyngiad ym mhris porc ynghyd â chyfran **eithriadol o uchel** i gynhyrchwyr yn 2017. Mae'r gyfran i gynhyrchwyr ar gyfer **cig eidion wedi aros yn gymharol sefydlog**. O ran yr amrediad prisiau ar gyfer **cig oen, roedd 7 y cant o gynnydd yn y gyfran i gynhyrchwyr ym mis Mai 2018** o'i gymharu â mis Mai 2017; credir bod hyn oherwydd llai o wlyn tymor newydd ar gael oherwydd y tywydd garw yn y gwanwyn.

Rhagwelir cynhyrchiant gwartheg **ychydig yn uwch** yn 2018, a hynny oherwydd cynnydd o ran lladd anifeiliaid wedi'u pesgi, ond llai o wartheg. **Rhagwelir y bydd cynhyrchiant defaid yn codi**, yn 2018 a 2019 fel ei gilydd, o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol.

Mae'r **Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth** (AHDB) yn disgwl i'r tywydd gwael ar ddechrau 2018 gael effaith negyddol ar allbwn domestig yn 2019 a thu hwnt. Disgwyllir cynnydd yn y lefelau masnach cyffredinol, ond gallai chwyddiant parhaus arwain at ostyngiad yn y galw domestig.

Canran yr amrediad prisiau rhwng manwerthu a'r fferm



Ffigur 3: Amrediadau prisiau'r DU ar gyfer cig eidion, cig oen a phorc rhwng mis Ionawr 2013 a mis Medi 2018.

Ffynhonnell **AHDB 'UK farm to retail price spreads'**.

## Cynhyrchwyr Cymru

Yn **2017, roedd 10 miliwn o ddefaid yng Nghymru**. Mae hyn 227,000 yn fwy nag yn 2016; sef cynnydd o 2.3 y cant. **Roedd y ddiadell yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2016 yn fwy nag a welwyd ers degawd** ar yr adeg honno o'r flwyddyn. Gellir priodoli hyn i amgylchiadau wynia ffafriol yn gynharach yn 2016 a'r ffaith bod nifer fawr wedi'u dwyn ymlaen o'r flwyddyn flaenorol. Dangosodd y DU gyfan gynnydd yn niferoedd y defaid gyda'r **chyfanswm diadell y DU** yn gynyddu 2.6% rhwng 2016 a 2017.

Yn 2017, roedd **1.11 miliwn o wartheg yng Nghymru**, sef 0.3 y cant yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. **25,000 oedd nifer y moch yng Nghymru** yn 2017, sef 8.7 y cant yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.

**Mae incwm cyfartalog ffermydd yng Nghymru o ffermio defaid a gwartheg** wedi codi yn 2016-17 o'i gymharu â 2015-16. Incwm y fferm mewn ardaloedd llai ffafriol (ALFF) (**sef tua 80 y cant o dir Cymru**) yw £23,100 y fferm. Mae hyn £1,200 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol, a'r ffigur uchaf mewn pum mlynedd. Priodolir hyn i'r ffaith fod prisiau'r farchnad yn well a'r bunt yn wan gan arwain at amrywiadau yn y gyfradd gyfnewid sydd wedi arwain at gynnydd o tua 17 y cant yn **Nhaliadau Sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd**.

## Prosesu cig coch yng Nghymru

Yn ôl **rhestr Hybu Cig Cymru o ladd-dai**, roedd 19 o ladd-dai yng Nghymru ym mis Hydref 2018. Roedd yr holl ladd-dai hyn yn lladd defaid, gydag 17 ohonynt yn gallu lladd gwartheg, a 12 ohonynt yn gallu lladd moch.

Yn ôl asesiad gan Hybu Cig Cymru **o gapasiti yn niwydiant lladd-dai cig coch Cymru** ym mis Mawrth 2016, roedd niferoedd y lladd-dai yn gostwng, gyda chwmp o 22 o ladd-dai yn 2016 i 19 ar hyn o bryd. Mewn **adroddiad** a gyhoeddwyd gan yr Ymddiriedolaeth Bwyd Cynaliadwy, tynnwyd sylw at y risgau o safbwyt cyflenwi cig lleol yn gynaliadwy os bydd y duedd hon yn parhau. Canfu adroddiad Hybu Cig Cymru **nad oedd yr un o'r lladd-dai hynny a oedd yn cael eu defnyddio yn 2016 yn gweithredu i'r eithaf**. Roedd cyfleusterau gwartheg yn gweithredu 17 y cant o dan eu huchafswm, cyfleusterau defaid 41-72 y cant o dan eu huchafswm a chyfleusterau moch 32 y cant o dan eu huchafswm.

**Mewn adolygiad o'r sector cig eidion yng Nghymru yn 2014** canfuwyd bod 72 y cant o wartheg Cymru yn cael eu lladd y tu allan i Gymru. Roedd 42 y cant o'r gwartheg a laddwyd yng Nghymru wedi'u geni y tu allan i Gymru. **O blith defaid Prydain, cafodd 31 y cant ohonynt eu bridio yng Nghymru, ond dim ond 24 y cant ohonynt a gafodd eu lladd yng Nghymru.** Cyflawnwyd 90 y cant o waith lladd-dai Cymru gan ddim ond pedwar lladd-dŷ. Y mwyaf o'r rhain yw St Merryn Meats Ltd. Roedd y 15 o ladd-dai llai yn cael eu hystyried yn hanfodol i gefn gwlad Cymru oherwydd eu bod yn darparu swyddi ac yn golygu nad oes angen cludo'r anifeiliaid mor bell.

### Prynwyr a defnyddwyr

Mae'r mwyafrif helaeth o dda byw Cymru yn cael ei werthu ar y farchnad arian parod, gyda chyfran gyfyngedig iawn yn cael ei werthu ar gcontract, a llai fyth am bris hysbys. Mae prif y farchnad yn amrywio yn ôl rhanbarth ledled Cymru, ac mae Hybu Cig Cymru yn darparu **prisiau diweddaraf y farchnad yn ôl rhanbarth**.

Mae ar wahanol brynwyr angen gwahanol fanylebau. Er enghraifft, cigyddion yn gyffredinol sydd angen y dosbarthiadau uchaf, tra bod cynhyrchwyr yn tuedd i fod â gofynion is. Mae Hybu Cig Cymru yn darparu **dosbarthiadau penodol ar gyfer carcasau defaid** ac ar gyfer **cargasau gwartheg** ar gyfer gwahanol farchnadoedd.

Ym mis Mehefin 2018, **cig eidion o Brydain oedd 83 y cant o'r cig eidion a werthwyd yn archfarchnadoedd Prydain (PDF, 830KB)**, chig oen o Brydain oedd 70 y cant o'r cig oen yn yr archfarchnadoedd. Yn 2016, dim ond **5 y cant o'r defaid a fridiwyd yng Nghymru a gafodd eu bwyta yng Nghymru**. Cafodd 60 y cant eu bwyta yn y DU ac allforiwyd 30-35 y cant.

### Yr ardoll cig coch

Pris a delir gan yr holl gynhyrchwyr neu gigyddwyr yn y man lladd (neu'r man allforio byw) yw'r ardoll cig coch. Caiff yr ardoll ei thalu i'r bwrdd ardollau perthnasol i'w defnyddio ar gyfer marchnata a hyrwyddo cynyrrch cig y wlad honno. Y wlad lle caiff yr anifail ei ladd sy'n pennu ardoll pa wlad a delir. Yng Nghymru, mae'r ardoll **yn cael ei thalu i Hybu Cig Cymru**, ac yn 2015/2016 roedd **70 y cant o gyllid y sefydliaid hwnnw yn dod o'r ardoll**.

Mae'r ardoll wedi cael ei **beirniadu yn y gorffennol** gan nad yw'n ystyried gwartheg sy'n cael eu cynhyrchu mewn un wlad a'u lladd mewn un arall; telir yr arian i'r bwrdd ardollau yn y wlad lle y caiff yr anifail ei ladd, ni waeth o ble y daw. Gwnaed **cynigion yn 2015 i newid hyn**, ond ym mis Hydref 2018 nid oedd unrhyw newidiadau wedi'u cyflwyno. Ym mis Mai 2018, fe wnaeth Gweinidog Amaethyddiaeth Llywodraeth y DU, George Eustice, **gydnabod** bod angen edrych ar sut y caiff yr ardoll ei chasglu ac ystyried opsiynau eraill.

## Cod ymarfer gwirfoddol

Yn 2015, cyflwynodd Cymdeithas Proseswyr Cig Prydain (BMPA) **god ymarfer gwirfoddol ar gyfer prynu gwartheg (PDF 178KB)** rhwng proseswyr cig a chynhyrchwyr da byw. Nod y cod yw gwneud gweithrediadau proseswyr yn fwy tryloyw, yn ogystal ag annog proseswyr i roi 12 wythnos o rybudd ynglŷn â newidiadau i'r amodau masnachu.

**Meddai Llywydd NFU Cymru ar y pryd, Stephen James**, pan gyhoeddwyd y cod yn 2015:

This is a welcome step in the right direction as we continue to seek more openness and transparency in the supply chain. What is critical to our members is the stability that this code should bring, which will allow producers to plan ahead and market their cattle without sudden or unexpected changes to conditions of sale. We hope this will help beef producers to manage the volatility we have seen in recent years and provide a clearer understanding of the terms and conditions that are on offer.

Ym mis Hydref 2018, roedd **chwe phrosesydd wedi ymrwymo i'r cod**: ABP, Dovecote Park, Kepak Group, Randall Parker Foods, grŵp bwyd 2 Sisters a Woodheads, sef is-gwmni i Morrisons. Fodd bynnag, nid yw Dunbia, sydd â thrif safle prosesu yng Nghymru, wedi gwneud hynny.

Mae'r penderfyniad **wedi denu beirniadaeth gan yr NFU**. Mewn datganiad ym mis Tachwedd 2015, meddai llywydd yr NFU ar y pryd, Meurig Raymond:

Dunbia is a processor that publicly claimed that a voluntary code was not in their best interest as their relationship with suppliers was fair and transparent. Yet they are giving their producers virtually no notice for significant changes in the specifications of cattle.

Dywedodd llefarydd ar ran **Dunbia yn 2015 fod y posiblwydd o lofnodi'r cytundeb yn cael ei draffod**; nid yw Dunbia wedi gwneud hynny eto.

Ar hyn o bryd nid oes cynllun tebyg ar waith ar gyfer defaid a moch.

## Marchnadoedd cig coch ar ôl i'r DU adael yr UE

Yr UE yw'r farchnad fwyaf ar gyfer cig coch Cymru, ac eithrio'r DU, gyda thua 90 y cant o allforion cig eidion a chig oen Cymru yn mynd i Aelod-wladwriaethau'r UE yn 2016. Ar 8 Hydref 2018, cynhaliodd Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Cynulliad Cenedlaethol **sesiwn dystiolaeth** fel rhan o'i

**ymchwiliadau i barodrwydd gwahanol sectorau** ar gyfer Brexit, gan gynnwys y sector bwyd. Dywedodd Prif Weithredwr Hybu Cig Cymru, Gwynn Howells, fod y farchnad Ewropeaidd ar gyfer **cig coch Cymru yn eithriadol o bwysig**. Rhybuddiodd hefyd fod y diwydiant ar hyn o bryd yn gweld rhai cadwyni cyflenwi yr UE yn chwilio **dewisiadau amgen yn lle cig oen o Gymru, gan ddweud bod hyn yn peri gofid**.

O ran cynhyrchion cig dafad ac oen y DU, er iddi allforio'r rhan fwyaf o'i chynhyrch cig dafad ac oen i'r UE, y DU Cymru **o blith holl wledydd yr UE sy'n allforio'r mwyaf** o gig dafad ac oen i wledydd y tu allan i'r UE. Er mwyn gwella mynediad at farchnadoedd y tu allan i'r UE ar gyfer cig oen o Gymru, mae Hybu Cig Cymru wedi buddsoddi adnoddau i ymchwilio i opsiynau, yn enwedig yn y **Dwyrain Canol, Asia** a'r Unol Daleithiau. Dywedodd Gwynn Howells fod Hybu Cig Cymru yn bwriadu sbarduno datblygiad marchnadoedd y tu allan i Ewrop **dros y blynnyddoedd nesaf er mwyn diogelu'r portffolio o allforion, sydd i raddau helaeth yn y fasged Ewropeaidd ar hyn o bryd**.

Mae pryer hefyd ynghylch yr ardoll cig coch, sy'n cael ei ddefnyddio i hyrwyddo a marchnata cig coch Cymru. Mae Hybu Cig Cymru **yn credu bod y trefniant presennol**, sef bod yr ardoll sy'n cael ei thalu yn y wlad lle caiff yr anifail ei ladd, yn cyfyngu ar ei gyllid ac y bydd yn cyfyngu ar ei allu i hyrwyddo cig coch o Gymru ar ôl Brexit. Ar 12 Medi 2018, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, **y dylai pweru yn ymwneud ag ailldosbarthu'r ardoll cig coch** gael eu cynnwys ym **Mil Amaethyddiaeth y DU**, gan alw ar Lywodraeth y DU i gywiro hyn cyn gynted ag y bo modd. Cytunwyd ar welliant i'r Bil ar 15 Tachwedd 2018, gyda'r **fersiwn ddiwygiedig o'r Bil** bellach yn cynnwys **Rhan 8** sy'n caniatáu i'r ardoll cig coch sy'n cael ei chasglu mewn un wlad gael ei thalu i gorff ardollau gwlad arall ym Mhrydain Fawr.

Adeg ysgrifennu hyn (Rhagfyr 2018), mae'r UE a Llywodraeth y DU wedi cytuno ar y Cytundeb Ymadael, ond mae angen i Senedd y DU ei gymeradwyo o hyd.

O ran y farchnad ddomestig ar ôl Brexit, **rhoddodd Hybu Cig Cymru rybudd i Bwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Cynulliad** y byddai angen:

[a] significant period where there would need to be adjustment, and to find supply chains that could take the excess lamb at certain months of the year onto either the retail market in the UK, or the food service market in the UK, or to public procurement supply chains.

Mae undebau amaethwyr Cymru wedi gwneud sylwadau'n rheolaidd am Brexit a'r effaith y gallai ei chael ar ffermio yng Nghymru.

#### Ar 20 Tachwedd 2018, **gwnaeth pedair cangen NFU ar gyfer cenhedloedd y DU ddatganiad ar y cyd ynghylch y Cytundeb Ymadael arfaethedig**.

Maent yn credu nad yw'r Cytundeb Ymadael yn berffaith, ond y bydd yn sicrhau na fydd unrhyw rwystrau caled ar ddiwrnod ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, ac y bydd yn caniatáu i fasnachu nwyddau amaethyddol a bwyd a diod o'r DU barhau drwy gydol y cyfnod pontio cyfnod i raddau helaeth fel ag o'r blaen. Maent yn parhau i annog y Llywodraeth i amddiffyn y safonau cynhyrchu a lles anifeiliaid uchaf a chynnal y lefelau uchel o ran masnachu mewn nwyddau amaethyddol rhwng y DU a'r UE, fel ein marchnad allforio fwyaf.

Ar 27 Tachwedd 2018, gofynnnydd **Llywydd Undeb Amaethyddol Cymru (FUW), Glyn Roberts, am sicrwydd gan y Prif Weinidog, Theresa May**, yn enwedig ynghylch y cyfnod pontio arfaethedig o 21 mis:

An additional 21 months of stability would be welcome, but we also need a commitment that after that period we will not open the floodgates to lower quality imports and that maintaining access to the EU market where most of our exports go will be a priority. The FUW has been consistent in its view that the best way to minimise disruption and economic damage to agriculture and other industries is to remain within the Single Market and the Customs Union

Pe byddai'r DU yn gadael yr UE heb fod wedi sefydlu unrhyw gytundeb masnach, awgrymwyd y byddai masnach rhyngddynt yn cael ei chynnal ar sail rheolau Sefydliad Masnach y Byd. Yn ystod sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, **dywedodd Gwyn Howells y byddai tariffau ar gig oen yn 50 y cant o leiaf yn achos carcasau wŷn a hyd at 80 y cant yn achos toriadau o gig oen**. Ychwanegodd na fyddai unrhyw allforion i'r gwledydd hynny yn y senario honno. Yn y **datganiad ar y cyd gan bedair cangen yr NFU**, cafwyd rhybudd fod masnachu gyda'r UE o dan reolau Sefydliad Masnach y Byd yn unig yn annerbyniol a byddai'n difrodi'r diwydiant.

Mae pryder wedi bod hefyd ynghylch **rhaglen enwau bwydydd gwarchodedig yr UE**, sy'n gwarchod bwydydd neu ddiodydd rhanbarthol a thraddodiadol cofrestredig ledled yr UE, o dan y gyfraith, rhag cael eu hefelychu. Mae **15 o gynhyrchion o Gymru wedi'u cofrestru gyda'r cynllun dynodiadau daearyddol** ar hyn o bryd, gan gynnwys 'cig oen Cymreig', 'cig eidion Cymreig' a 'porc Cymreig pedigree wedi'i fagu'n draddodiadol'. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU **ymgynghoriad ym mis Hydref 2018 yn gofyn am farn ynghylch creu cynllun cyfatebol ar gyfer y DU** ar ôl gadael yr UE. Hefyd, **cyhoeddodd Gwasanaeth Ymchwil y Senedd flog** cyn cyhoeddi'r ymgynghoriad hwn, yn edrych ar y senario ar ôl Brexit ar gyfer dynodiadau daearyddol. Mae'r blog hwn yn nodi hefyd bod Llywodraeth y DU yn credu **mai mater a gedwir yn ôl yw dynodiadau daearyddol**.

Cyhoeddodd Hybu Cig Cymru '**Archwilio goblygiadau Brexit ar amaethyddiaeth a garddwriaeth yng Nghymru**' ym mis Gorffennaf 2018, sy'n ymchwilio i'r gwahanol senarios Brexit posibl a'u sgil-effeithiau ym maes amaethyddiaeth yng Nghymru. Fe wnaeth Prif Weithredwr Hybu Cig Cymru, Gwyn Howells, **dynnu sylw at yr angen i ganolbwytio ar fasnach sy'n datblygu y tu allan i'r UE**, y prinder llafur posibl a'r angen i gadw safonau bwyd yn uchel. Hefyd fe wnaeth **adroddiad Brexit diweddar Llywodraeth Cymru** dynnu sylw at y materion posibl ynghylch gofynion llafur safleoedd prosesu. Roedd hyn yn cyfeirio'n benodol at filfeddygon sy'n ymdrin â'r broses o ladd mewn lladd-dai, gan fod 80 y cant o'r milfeddygon yn lladd-dai Cymru yn dod o'r UE.

Ar 8 Hydref 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £2.15 miliwn ar gyfer '**prosiect meincnodi cig coch**' er mwyn:

Helpu ffermwyr eidion a defaid i barhau'n gystadleuol mewn byd cyfnewidiol, i wneud yn fawr o bob cyfre ac i sicrhau eu bod yn gallu llwyddo mewn byd ar ôl Brexit

O ran cymorth i ffermwyr, mae'r cynllun taliadau sylfaenol wedi cael ei **warantu ar ei ffurf bresennol tan ddiwedd 2019**, gyda chyfnod pontio i'r rheolau newydd ar ôl 2019. Bydd **Llywodraeth y DU yn rhoi taliadau cyfatebol ar gyfer taliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin tan 2022**. Fodd bynnag, oherwydd yr ansicrwydd ynghylch y fargen Brexit (fel ag ym mis Tachwedd 2018), nid yw'r manylion ynghylch sut y bydd y cynlluniau hyn yn gweithio yn hysbys o hyd. Unrhyw ostyngiadau yn y dyfodol i **gymorthdaliadau yn effeithio ar amaethyddiaeth Cymru yn fwy na gweddill y DU gan fod cymorth i ffermwyr yn cyfrannu cyfran uwch o incwm busnes ffermydd yng Nghymru** (PDF, 2.8 MB).

Mae adroddiad Hybu Cig Cymru yn awgrymu y bydd systemau cymorth taliadau yn destun mwy fyth o waith craffu o ran buddion i'r cyhoedd am arian cyhoeddus. Adlewyrchwyd hyn yn ddiweddar **wrth gyhoeddi Bil Amaethyddiaeth y DU**, y cytunwyd arno gyda **Gweinidogion Cymru**, sy'n cynnig newid i'r cymorthdaliadau hyn gyda ffocws ar daliadau am 'nwyddau cyhoeddus' fel dal a storio carbon neu wella ansawdd aer a dŵr.

## Ffynonellau allweddol

- [AHDB Beef and Lamb](#)
- [Hybu Cig Cymru](#)
- [Undeb Amaethwyr Cymru](#)
- [NFU Cymru](#)
- [Farmers Weekly](#)
- [Ystadegau amaethyddol Llywodraeth Cymru](#)
- [Adolygiad o'r sector cig eidion, 2014](#)
- [BREXIT a'r Diwydiant Cig Coch](#)
- [Cyhoeddiadau diweddaraf Hybu Cig Cymru](#)
- [2018 Cattle Yearbook \(PDF 1.4MB\)](#)
- [2018 Sheep Yearbook \(PDF 1.3MB\)](#)